# Lowry Cymru




**Mae cymharu a labelu arlunwyr yn gallu bod yn rhywbeth peryglus i'w wneud. Ond mae'r label sydd wedi ei roi ar un o arlunwyr amlyca' Cymru yn un y mae'n eithaf balch ohono.**

Mae Nick Holly o Abertawe yn cael ei alw yn Lowry Cymru oherwydd y tebygrwydd rhwng ei waith a lluniau'r artist enwog hwnnw, Laurence Stephen Lowry.

"Rydyn ni fel artistiaid yn gallu bod yn sensitif am gael ein cymharu ag artistiaid eraill. Falle'n bod ni'n ofni colli ein hunaniaeth ni'n hunain," meddai Nick Holly wrth iddo baratoi at arddangosfa newydd sbon yn Llundain fis nesa'.

"Does dim dwywaith bod pob arlunydd yn astudio gwaith arlunwyr eraill a bod gan ambell arlunydd arall ddylanwad mawr arnon ni. Mae Lowry yn ddylanwad arna i heb os, ac mae cael fy ngalw yn 'Lowry Cymru' yn fy ngwneud yn falch, yn y ffordd gywir gobeithio!"

Cafodd Nick Holly arddangos ei waith am y tro cynta' 'nôl yn 1989, ac mae ei waith yn gwerthu'n dda yn gyson. Mae orielau amrywiol trwy Brydain wedi trefnu arddangosfeydd o'i waith hyd at ddiwedd 2015.

"Lowry Cymru," *Golwg*, Cyfrol 24, Rhif 30, Ebrill 5, 2012, tud. 19